

YSGOL I.D. HOOSON

Annwyl Riant/Gofalwr,

Gynllun Gwella'r Ysgol - O ran ein cynlluniau gwella ysgol ar gyfer y flwyddyn hon byddwn yn gosod ffocws ar meysydd canlynol: areas:

1. Parhau gyda'r gwaith o gynllunio a pharatoi tuag at Cwricwlwm 2022
2. I osod ffocws ar ymroddiad cymuned yr ysgol tuag at hybu iechyd a lles corfforol a meddyliol.
3. Byddwn yn rhoi sylw pellach tuag at baratoi gweithdrefnau a threfniadau'r ysgol wrth gyflwyno newidiadau i ymateb i ofynion Deddf ADY 2021

O fewn y blaenoriaethau gwella, bydd amrywiaeth o weithgareddau yn cael ei defnyddio wrth ymateb iddynt. Bydd y gweithgareddau hyn yn cynnwys trafodaethau a chyfarfodydd staff, digwyddiadau hyfforddi, gweithgareddau monitro, gweithio ochr yn ochr gyda asiantaethau allanol, gweithio gyda swyddogion gwella GwE, ymweld a ysgolion eraill, prynu adnoddau ychwanegol.

Bocsys esgidiau - Dros yr wythnosau nesaf, byddwn yn cymryd rhan yn ymgyrch bocsys esgidiau Teams4U. Mae'r wybodaeth ar y bamffled y mae eich plentyn wedi ei dderbyn heddiw. Bydd yn bocsys esgidiau yn cael ei casglu o ddydd Llun Tachwedd 8fed ymlaen, ac felly, os ydych am gymryd rhan, bydd angen dod a'r bocsys i'r ysgol erbyn dydd Gwener y 5fed o Dachwedd fan bellaf.

Cefnogi banc bwyd Wrecsam - yn ystod yr wythnos nesaf, bydd yr ysgol yn cymryd rhan mewn dathliadau Diolchgarwch. Gofynnwn i'r plant ddod a chyfraniadau o eitemau o fwyd i'r ysgol (DIM BWYDYDD FRES MEGIS LLYSIAU A FFRWYTHAU), a byddwn yn trefnu fod y bwydydd hyn yn cael ei cyflwyno i'r banc bwyd lleol yn y pentref. Os ydych yn fodlon cefnogi, yna a fydddech cystal ag anfon unrhyw nwyddau i'r ysgol erbyn dydd Mercher Hydref 20fed. Diolch yn fawr.

Tywydd drwg - Mewn amgylchiadau ble mae amheuaeth ynglyn a os yw'r ysgol ar agor neu beidio o ganlyniad i dywydd drwg, yna dylech wyllo allan am negeseuon drwy Schoop, App yr ysgol a safle Trydar yr ysgol. Bydd gwybodaeth ynglyn a chau yr ysgol hefyd i'w weld ar wefan Cyngor Wrecsam www.wrexham.gov.uk

Gwisg Addysg Gorffrol - Mae addysg gorffrol yn rhan bwysig o weithgareddau wythnosol y plant. A fydddech cystal felly a sicrhau fod eich plentyn yn gwisgo gwisg addysg gorfforol yr ysgol, sef siorts glas tywyll (gellir gwisgo tracwisg mewn tywydd oer), pympys/trainers addas a chrys polo/crys-T yr ysgol ar gyfer ei sesiynau wythnosol. Gofynnwn i'r plant ddod i'r ysgol yn ei cit ar y diwrnod penodol. Diolch

Covid-19 - Hoffwn eich atgoffa i barhau i fod yn wyladwrus o ran y sefyllfa yn ymwneud a Covid-19. Rydym yn parhau i weithredu camau iechyd a diogelwch amrywiol yn yr ysgol i geisio lleihau unrhyw ymlediad o'r firws. Os y bydd plant yn mynychu'r ysgol ac yn arddangos symptomau sydd yn cynnwys peswch parhaus, gwres, colli blas, byddwn yn cysylltu a chi fel rhieni / ofalwyr i ofyn i chi gasglu eich plentyn er mwyn trefnu prawf PCR covid-19. Rydym yn parhau i ofyn i chi fel rhieni i barhau i barchu y trefniadau iechyd a diogelwch ar y safle, **drwy gadw pellter diogel, gwisgo mwgwd wrth ddod a'ch plentyn i'r ysgol ac wrth gasglu eich plentyn o safle'r ysgol, yn ogystal a sicrhau mai un rhiant/oedolyn/ ofalwr yn unig sydd yn dod ar fuarth yr ysgol i gasglu eich plentyn.** Mae'r achosion positif o Covid-19 yn parhau efo ni yn yr ysgol, ac felly byddem yn gwerthfawrogi cydweithrediad pawb yn ein hymderchion i leihau'r risg i gymuned yr ysgol.

Nosweithiau rhieni - Bwriedir cynnal nosweithiau rhieni yn ystod yr wythnos yn cychwyn Tachwedd 15fed a'r wythnos yn cychwyn Tachwedd 22ain. Bydd manylion pellach yn dilyn ar ôl yr hanner tymor.

Diwrnod Plant Mewn Angen - Byddwn yn cefnogi Plant Mewn Angen ar ddydd Gwener, Tachwedd 19eg. Thema ein diwrnod y flwyddyn yma fydd 'Diwrnod gwallt gwirion'. Byddwn yn ddiolchgar am unrhyw gyfraniadau tuag at yr apêl, a chesglir rhain ar y dydd.

Diwrnod Hyfforddiant a hanner tymor - Hoffwn eich atgoffa y bydd dydd Gwener Hydref yr 22ain yn ddiwrnod hyfforddiant, ac felly bydd yr ysgol ar gau i'r disgyblion. Dydd Iau Hydref yr 21ain felly fydd diwrnod olaf yr hanner tymor hwn i'r plant. Bydd yr ysgol yn ail agor ar ôl yr wythnos hanner tymor i'r plant a'r staff ar ddydd Llun Tachwedd 1af.

Diolch yn fawr iawn am eich cefnogaeth a'ch cydweithrediad parhaus.